

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd
ar y 5 Mawrth 2013 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

YN BRESENNOL

**Y Cynghorydd Dewi Owen – Cadeirydd
Y Cynghorydd David Williams – Is-gadeirydd**

Y Cyngorwyr: Anne Lloyd Jones, Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Megan Reynolds, David C. Richardson (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George, Bob Usher, (Clwb Hwyllo Aberdyfi), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Dr A. Stedman (Clwb Rhwyfo Aberdyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi), Mr Huw Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion), Mr Paul Fowles (Siambwr Fasnach Aberdyfi).

Swyddogion

Mr Llyr Jones	-	Uwch Reolwr Economi a Chymuned
Mr Barry Davies	-	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
Mr Paul Edwards	-	Harbwr Feistr
Glynda O'Brien	-	Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu
Mrs Mererid Watt	-	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd fel sylwedydd), Brian Bates (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Ken Fitzpatrick (Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau), Huw Davies (Prif Beiriannydd).

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Mr Ken Fitzpatrick wedi gobeithio bod yn bresennol yn ei gyfarfod olaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn gan ei fod yn ymddeol o'r gwasanaeth ddiwedd mis Awst eleni. Roedd Mr Fitzpatrick wedi rhoi blynyddoedd lawer o wasanaeth i'r Cyngor fel Harbwr Feistr Cynorthwyol ym Mhorthmadog Harbwr Feistr ym Mhwlheli, ac yn ddiweddarach fel Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau. Yn sicr fe fyddai'r gwasanaeth yn ei golli a dymunwyd yn dda iddo yn ei ymddeoliad i'r dyfodol.

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd i'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn am y flwyddyn 2013.

2. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL

Datganodd yr Aelodau canlynol fuddiant personol yn y materion a nodwyd isod:

- (a) Y Cyng. Megan Reynolds mewn perthynas ag Eitem 5 – Adroddiad y Swyddog Morwrol ac yn benodol pwynt 5 – Cais Cynllunio Bad Achub oherwydd ei bod yn lywodraethwr Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol y Bad Achub.
- (b) Mr David Williams mewn perthynas ag Eitem 5 – Adroddiad y Swyddog Morwrol ac yn benodol pwynt 5 – Cais Cynllunio Bad Achub oherwydd ei fod yn Reolwr Gweithredu'r Bad Achub yn Aberdyfi.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni fu iddynt adael y cyfarfod yn ystod y trafodaethau ar yr eitemau penodol uchod.

3. COFNODION

Cyflwynwyd: Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 25 Medi 2012.

Penderfynwyd: **Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir yn ddarostyngedig i newid y gair "removed" yn y cyfieithiad Saesneg i ddarllen "installed" ym mhwynt bwled olaf ym mhwynt 6 (f) ac i'r frawddeg ddarllen "The fence around the buoy storage area had been installed**

3.1 Materion yn codi o'r cofnodion

Parthed pwynt 1 (ch), adroddodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ei fod wedi ymchwilio i'r honiadau o ddiffyg ymateb E-byst gan y Gwasanaeth Morwrol ac mai teg ydoedd nodi nad oedd y negeseuon E-bost a gyfeiriwyd atynt ar sustem gyfrifiadurol y Cyngor. Nodwyd nad oedd y Swyddog Morwrol wedi newid ei gyfeiriad E-bost mewn ymateb i ymholiad gan Mr Richardson.

Penderfynwyd: **Derbyn a nodi'r uchod.**

4. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

Cyflwynwyd: Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

(A) Mordwyo ac Angorfeydd

(i) Mordwyo ac Angorfeydd

(a) Nododd y Swyddog Morwrol bod y cymhorthion mordwyo wedi derbyn dipyn o sylw a buddsoddiad yn dilyn arweiniad gan Tŷ'r Drindod ond ni fyddir yn sicr os y byddent at y safle erbyn Pasg. Fodd bynnag, buddsoddiwyd ac archebwyd bwiau newydd a disgwylir iddynt gyrraedd yn weddol fuan. Nodwyd y byddir yn newid y Bwi Tramwy cyn diwedd mis Mai a bod trafodaethau yn mynd rhagddynt hefo Tŷ'r Drindod ynglyn â'i osod.

(b) Hyderai Aelod y byddir yn cymryd i ystyriaeth gwelededd a maint y bwiau pan yn archebu a gosod y rhai newydd.

(c) Mewn ymateb, sicrhawyd y byddent yn weledol a'i fod yn ofynnol i gymryd i ystyriaeth y gyllideb sydd ar gael ar gyfer hyn sef cost o £6,500 i'r gwasanaeth i'w prynu. Yn y gorffennol, roedd Ty'r Drindod yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw ond yn dilyn adolygiad trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i'r awdurdod lleol. Adroddir i Dŷ'r Drindod bob tri mis i gadarnhau bod y cymhorthion ar y safle. Yn unol â côd diogelwch yr Harbwr fe roddir rhybudd i forwyr pe na fyddai'r lluserni yn gweithio.

(ch) Cadarnhawyd, yn dilyn derbyn hawl gan Dŷ'r Drindod, y bydd Bwi coch y draethell yn cael ei ail-osod gan yr Harbwr Feistr cyn Gŵyl Y Sulgwyn. Bydd y bwi presennol yn cael ei ddychwelyd i'r lan ac yn cael ei gynnal a chadw yn ystod misoedd yr haf.

(d) Nododd Aelod bod y sustem yn gweithio'n llwyddiannus pan fydd y bwiau i gyd ar safle a chroesawyd y byddir yn uwchraddio'r bwiau ym mis Mai.

(ii) Bwiau Parth Traethau

Adroddwyd y byddai'r bwiau parth traethau ar eu safleoedd penodol erbyn Sulgwyn.

(iii) Cynnal a Chadw Angorfeydd

(a) Adroddwyd y profwyd ychydig anhawster gyda gyda'r contractwr angorfeydd flwyddyn diwethaf oherwydd, yn dilyn archwiliad, nad oedd ei gwch a cherbydau yn cydymffurfio gyda chanllawiau priodol y Gweithgor Iechyd a Diogelwch a Gwylwyr y Glannau. Fodd bynnag, yn dilyn adroddiadau / archwiliadau pellach, derbyniwyd cadarnhad a thystysgrifau perthnasol bod y cwch yn addas ar gyfer y pwrpas ac y bydd yn cychwyn ar y broses o gynnal a gosod yr angorfeydd. Bydd gan y Gwasanaeth gyfanswm o 5 angor gyda'r gweddill yn rhai preifat. Sicrhawyd na fyddai'r contractwr yn gosod yr angorfeydd heb gael cyfarwyddyd o'r union leoliad i'w gosod gan yr Harbwr Feistr.

(b) Nododd y Cyng. Richardson nad oedd 7 diwrnod yn amser digonol i ddychwelyd ffurflenni cais am angorfeydd yn arbennig i'r rhai hynny sydd gan ail gartrefi yn Aberdyfi ac sydd efallai heb dderbyn y ffurflen gan nad ydynt wedi bod yn eu hail gartref.

Mewn ymateb, tra'n derbyn sylw y Cyng. Richardson, nododd y Swyddog Morwrol bod y gwasanaeth yn hyblyg o ran derbyn ffurflenni yn ol os yw pobl ar wyliau. Pwysleiswyd y dylai unigolion ddefnyddio eu prif gyfeiriad ac nid cyfeiriad ail gartref. Roedd hyn er osgoi yr anawsterau a gyfeirwyd atynt gan y Cyng. Richardson. Nodwyd bod datblygiadau yn cael eu gwneud i sustem technoleg gwybodaeth y gwasanaeth i fedru gweinyddu'n fwy effeithiol i'r dyfodol ond rhaid ymddiheuro ar ran y Gwasanaeth bod rhai ffurflenni wedi eu hanfon allan gyda enw'r cwch anghywir ond bellach bod hyn wedi ei ddatrys.

(B) Ystadegau Morwrol

(a) Adroddwyd

- bod 42 o ffurflenni angorfeydd wedi eu dychwelyd i'r swyddfa sydd braidd yn siomedig o'i gymharu a 96 y llynedd. Fodd bynnag, roedd lleihad yn y nifer yn dueddiad ar draws Harbyrau'r Sir ac nad oedd yn anarferol i dderbyn rhai ychwanegol i fewn yn hwyr.
- Bod 200 yn llai o cofrestriadau badau dwr personol yn 2012 a dros 300 yn llai o gychod pwer a hyn mai'n debyg oherwydd y tywydd, yr hinsawdd economaidd a phris uchel tanwydd.

(C) Cyllidebau Harbyrau

(a) Tywyswyd yr Aelodau drwy'r targedau cyllideb cyfredol 2012-13; gwariant ac incwm cyfredol at ddiwedd Chwefror ac adolygiad chwarter tri gan dynnu sylw i'r canlynol:

- Rhagwelir y bydd tanwariant o £10,000 ar y gyllideb staffio
- Rhagwelir tanwariant o £3,600 ar y gyllideb eiddo ac atgoffwyd aelodau bod £11,000 wedi ei drosglwyddo dan y pennawd hwn oddeutu 10 mlynedd yn ol ar gyfer manwelliannau a'i fod wedi ei gadw hyd yma yn y gyllideb yma
- Bod swm o oddeutu £40,000 o darged incwm wedi ei bennu i'r Harbwr ac erbyn diwedd Rhagfyr rhagwelir y bydd oddeutu £28,000 wedi ei gasglu a olygai lleihad o oddeutu £11,000 ac erbyn diwedd y flwyddyn rhagwelir y bydd oddeutu £2,000 yn y gyllideb
- Bod yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned wedi llwyddo yn dilyn adolygiad o'r gyllideb i gael targedau incwm llai i'r Harbyrau ar gyfer 2013-14
- Bu'n rhaid gwneud buddsoddiad i storfa'r bwiau
- Buddsoddiwyd oddeutu £140,000 ar gyfer glanhau traethau dynodedig a nodwyd oherwydd y tywydd garw rhagwelir y bydd targed incwm y traethau yn fyr o oddeutu £31,000
- Ei bod yn flwyddyn heriol iawn a chyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet er codi ymwybyddiaeth bod yr incwm yn isel. Cyflwynwyd bid am arian refeniw ond yn anffodus ni fu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau gyda'r Adran Gyllid, cytunwyd i osod lefel

targed realistig a rhesymol o ran y targedau. Hyderir y bydd hyn yn cryfhau gweddill y gyllideb ac fe fydd cyfrifon flwyddyn nesaf yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

(b) Croesawyd bod y targedau incwm yn cael ei gosod yn fwy realistig a gobeithir y bydd yn cael effaith enfawr ar y gyllideb i'r dyfodol.

(c) Cyfeiriwyd at y tabl yn dangos effaith chwyddiant ar y gyllideb ac mai 1% a bennir ar gyfer Harbwr Aberdyfi ar gyfer 2013-14 sy'n golygu £41,110 o darged terfynol. Penderfynwyd gostwng ffi lansio o £12.00 i £10.00 a hyn yn hytrach na'i godi i £15.00 yn y gobaith o annog pobl i fanteisio ar y cyfleusterau lansio sydd yn Aberdyfi.

(ch) Cadarnhawyd bod yr Uned Technoleg Gwybodaeth ar hyn o bryd yn datblygu safle we i'r Gwasanaeth fel bo modd cynnwys ffioedd, a.y.b. ar y we. Hyderir ar gyfer y flwyddyn nesaf y bydd modd cyfathrebu yn fwy effeithiol ar ffurf electroneg rhwng y Gwasanaeth a'r cwsmeriaid.

(CH) Digwyddiadau

(a) Adroddodd y Swyddog Morowrol bod y Gwasanaeth wedi trafod gyda Asiantaeth yr Amgylchedd o safbwynt canlyniadau ansawdd y dwr ymdrochi ac fe broffwydir bod yr ansawdd yn Aberdyfi yn mynd i fod yn isel ond hyderir y bydd rhagolygon yn gwella. Roedd ansawdd dwr Traeth y Fynwent wedi cyrraedd safon uchel ac yn dilyn ei fonitro yn rheolaidd a chadw data o faint sydd yn ei ddefnyddio hyderir y gellir dynodi Traeth y Fynwent ar gyfer gwobr traeth yn 2014.

(b) Mynegodd y Cadeirydd ei bryder o safbwynt diogelwch y cyhoedd pe byddai defnyddwyr yn crwydro i geg yr afon ac oni ddylid gosod bwiau priodol i ddynodi pa safleoedd sydd yn ddiogel.

(c) Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol ar gyfer 2014 y byddir yn cyflwyno proffil y traeth uchod ac yn awgrymu pa ddarnau o'r traeth y gellir ddefnyddio. Pwysleiswyd na fyddai adnoddau staffio tir ar gael yn union run fath a thraethau eraill y Sir sydd heb oruchwyliaeth.

(ch) Ychwanegodd Aelod nad yw Gwbor Traeth yn cymryd i ystyriaeth ac yn cyfeirio at fannau diogel ond yn hytrach ansawdd y dwr ymdrochi a bod y Bad Achub wedi ymateb ar sawl achlysur i ddigwyddiadau yn ymyl Trefeddian.

(d) Nodwyd ymhellach y bydd y llwybr beics yn dod yn agos i Draeth y Fynwent ac efallai y bydd yn denu fwy o bobl i fynd i'r traeth.

(dd) O safbwynt canlyniadau dwr ymdrochi Tywyn roedd llwyddiant y Faner Las yn ddibynol ar ganlyniad cyfartaledd pedair blynedd ac oherwydd y gwaith i'r morglawdd yn ddiweddar ni fyddir yn cyflwyno cais flwyddyn yma oherwydd na fyddai'r ansawdd yn cyrraedd y safon. Fodd bynnag, cyflwynir cais positif am y Faner Felyn Trefol i Dywyn.

(e) Mewn ymateb i gais gan Aelod lleol Tywyn ynglyn a ffurfio Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Tywyn, nododd y Swyddog Morowrol nad oedd hyn yn bosibl ac anogir y Cyngor Tref i gyfeirio materion morwrol yn uniongyrchol iddo ef.

(f) Ychwanegodd Aelod arall ei bod yn bwysig i wneud cais i Gynghorau Tref / Cymuned arfordirol am gyfraniad arianol tuag at gostau ffioedd y Gwborau Traeth ac fel eu bod yn gallu cynllunio ymlaen llaw yn eu praesept ar gyfer y cyfraniadau hyn.

(ff) Adroddwyd bod yr ymgynghoriad ynglyn a'r Gorchymyn Gwahardd Cŵn wedi bod yn llwyddiannus ac o'r 1 Ebrill fe fydd swyddogion yn gallu rhoi dirwy i berchnogion cŵn a welir ar rannau o'r traethau sydd yn gwahardd cŵn.

(g) Nododd Aelod ei siom yng nghynnwys geiriad y Gorchymyn sydd yn gwrthdeud canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ac nad oedd Cabinet y Cyngor wedi derbyn y dystiolaeth angenrheidiol i'w gymeradwyo. Deallwyd bod y Prif Weithredwr yn ymchwilio ymhellach i'r mater.

(D) Materion Cyffredinol

(i) Cysgodfa Promenâd a Penhelyg – nodwyd nad oedd rhain wedi eu cynnal a'u cadw yn y gorffennol diweddar ond bod y Gwasanaeth wedi derbyn grant bychan ar gyfer buddsoddi yng nghysgodfa Penhelyg.

(ii) Ffens Diogelwch Gweithdy Harbwr – derbyniwyd gwrthwynebiad lleol i godi'r ffens ond bod yn rhaid parhau hefo'r gwaith hwn.

(iii) Ysgolion – Nododd yr Harbwr Feistr ei fod wedi cydweithio'n glôs hefo'r Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau dros fisoedd y gaeaf ar raglen waith i gynnal a chadw'r ysgolion mewn darpariaeth ar gyfer y tymor hwn. Byddir yn monitro ansawdd yr ysgolion yn rheolaidd. Nododd Aelod bod ganddo hyd o goed (x2) a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer yr ysgolion pe byddai gan yr Harbwr Feistr ddiddordeb mewn gwneud defnydd ohonynt.

(iv) Wal y Cei – Yn dilyn trafodaeth gyda'r Prif Beiriannydd, nododd y Swyddog Morwrol bod yr Uned yn parhau i fonitro'r erydiad, sydd bellach wedi arafu ychydig, ac yn ymchwilio i ffynhonnellau arian ar gyfer y gwaith.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod y mater yn destun trafodaeth ers dros dwy flynedd bellach. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned yn yr Hydref ac fe amlygwyd pryderon yn lleol. Cydnabyddir pwysigrwydd wal y cei a'r ystod o weithgareddau a ddeillir ohoni. Deallir bod bid a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 26 Chwefror 2013 wedi ei gymeradwyo yn y swm o £125,000 ar gyfer paratoi adroddiad manwl ac i dderbyn caniatadau statudol i weithredu'r cynllun. Gobeithir cynnal cyfarfod yn yr wythnosau nesaf ar gyfer gosod trefniadau cychwynol ar gyfer y gwaith i wal y cei.

Ymfalchiodd y Cadeirydd i dderbyn y wybodaeth uchod a'i fod yn ffordd ymlaen yn dilyn trafodaethau hir a maith.

Pwysleiswyd yr angen pan yn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer unrhyw gynllun i wal y cei i gymryd i ystyriaeth bod y cei yn un hynafol Fictorianaid ac y dylid cysylltu gyda'r cyrff priodol yn Aberdyfi I gael mewnbwn i'r dyluniad ar yr amser priodol. Yn ogystal o ran denu grant y dylid sicrhau a fyddai waliau'r Harbwr yn cynnwys gwaith atal llifogydd.

Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned oherwydd bod risgiau wedi amlygu dros y chwe mis diwethaf bod modd bellach ystyried y gwaith fel rhan o gynllun atal llifogydd. Bwriedir targedu ffynhonnell Ewropeaidd am arian o ystyried maint y gwaith sydd angen ei gyflawni.

(v) Pont Bryn Llestair – bu'n rhaid cau'r bont i gwblhau gwaith ar y rheilffordd gan Network Rail. Cwblheir archwiliad o gyflwr y bont yn flynyddol a phe byddai modd darganfod arian i'w chynnal a'i chadw byddai'r gwasanaeth yn fodlon ysgwyddo'r gost.

(vi) Cais Cynllunio'r Bad Achub – Cyfeiriwyd at y cynlluniau arfaethedig ynghlwm i'r rhaglen o'r bwriad i ymestyn gorsaf y Bad Achub a chadarnhwyd bod yr Uned Eiddo wedi ymestyn prydles yr eiddo a'r tir i'r Bad Achub. Cyflwynwyd y cais i Barc Cenedlaethol Eryri a'r unig sylw a wneir gan y Gwasanaeth Morwrol yw ystyried y posibilrwydd y byddai'r llawr, oherwydd y lefelau, yn llenwi gyda dŵr ar lanw uchel. O safbwynt y gwasanaeth, pwysleiswyd os yw'r

cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r tir yn gyfrifoldeb i'r Bad Achub, gofynnir a fyddai modd gosod concriid o'i flaen yn hytrach na tharmac.

Nododd Mr Desmond George, tra nad oedd gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r cynllun, tynnwyd sylw at y pwyntiau isod a oedd yn fater o gonsyrn:

1. Gwneud lansio'r cwch yn llai effeithiol o ganlyniad i orfod bachu'r cwch bob amser ac yn troi o gwmpas mewn cylch mwy o faint
2. Y byddir yn cymhlethu materion diogelwch presennol drwy ormod o weithgareddau ar lithrfa bach sy'n cael ei chwalu oherwydd oedran a defnydd trwm gan y cerbyd trac
3. lleihau ôl-troed y llecyn agored ac o ganlyniad yn ei wneud yn anodd i ddefnyddwyr presennol (Clwb Hwyllo Dyfi, Clwb Rhwyfo a'r Outward Bound) i weithredu'n effeithiol
4. yn cyflwyno mwy o perygl ac yn cynyddu'r risg o anaf i'r cyhoedd

Cadarnhawyd bod y Cyngor Cymuned yn gefnogol i'r cynllun oherwydd ei fod yn bwysig iawn i Aberdyfi ac mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nodwyd bod yn ofynnol gwneud y gorau o'r gofod sydd ar gael.

Roedd y Clwb Hwyllo yn gefnogol i'r cais ac yn arbennig o ran lledu'r ffordd a hwyluso'r fynedfa. Mewn ymateb, esboniodd y Cyng. David Williams nad oedd modd ystyried ehangu ol-troed y cynllun ac roeddynt wedi eu cyfyngu oherwydd yr angen i gael cwch newydd sydd yn llawer mwy na'r un bresennol ac felly ddim yn ffitio i'r orsaf. Ni ellir cau'r bwlch rhwng y Clwb Hwyllo ac adeilad y Bad Achub oherwydd cyfyngiadau symudiadau i ddefnyddwyr eraill a rhaid ei gadw o faint priodol. Pan adeiladwyd yr orsaf roedd cyfyngiadau ar uchder yr orsaf oherwydd gwrthwynebiadau lleol gan drigolion o golli golygfeydd. Pwysleiswyd bod y Bad Achub wedi ceisio ystyried y cynllun gorau posibl ar gyfer eu hangen yn ogystal a sicrhau nad oedd y cynllun arfaethedig yn ardaro gyda defnyddwyr eraill cyfagos. Tra'n derbyn y sylwadau wneir gan unigolion roedd y sefyllfa'n bodoli ers 1963 ac nid oedd ffurf o weithredu yn mynd i fod yn wahanol gan gofio bod 80% o'r lansio yn digwydd i lawr y lithrfa. Ychwanegwyd y pwyntiau isod o blaid y cais:

- Bod yr RNLI yn gallu ei fforddio
- Gwneir defnydd gorau o'r tir sydd ar gael
- Rhaid cael adeilad addas i bwrpas gweithredu cwch fodern
- O safbwynt y pwynt a godwyd bod angen adnewyddu'r tarmac, sicrhawyd nad y Bad Achub sy'n gyfrifol am y tyllau yn y tarmac ac mai trafndiaeth cyffredinol sy'n gyfrifol am hyn. Byddai'n rhaid trafod hyn ymhellach gyda'r Swyddog Morwrol.
- Hyderir y gellir cwblhau a bod yn weithredol erbyn Hydref / dechrau gaeaf nesaf

(vii) Symudiadau Tywod 2013 - cadarnhawyd ni fyddir yn symud tywod flwyddyn yma oherwydd bod lefel y traeth wedi gostwng.

(viii) Cynnal a Chadw Llithrfeydd – nodwyd bod yr Harbwr Feistr yn archwilio'r Llithrfeydd pob pythefnos a'r unig lithrfa sydd yn ofynnol i'w gynnal a'i gadw yw'r un a leolir ym Mae'r Eglwys.

Nododd Mr Richardson bod arwyneb lithrfa Cliffside wedi malu gyda thyllau twfn. Nodwyd ymhellach bod rheiliau wedi dod yn rhydd oddi ar hen lithrfa Bad Achub. Pwysleiswyd gan y swyddog Morwrol bod yr holl lithrfeydd yn cael eu harchwilio gan yr Harbwr Feistr pob pythefnos ac y dylai unrhyw ddiffyg ar lithrfa gael ei gynnal a chadw fel na fod perygl yn bodoli. Golygai hyn na ddylai fod yna unrhyw dyfiant gwymon neu algai ar lithrfa.

Nododd y Swyddog Morwrol y byddir yn atgoffa'r Harbwr Feistr bod angen ymchwilio ac ymdrin â'r materion uchod.

(ix) Mynegwyd bryder bod wal ar frig llithrfa May Bank yn disgyn i safle lle cedwir y dingis. Deallir bod y wal yn eiddo preifat i berchennog 1 Rhos Penhelyg a chadarnhaodd y Swyddog Morwrol y byddir yn ysgrifennu ato i dynnu i'w sylw beryglon y wal a'i atgoffa o'i gyfrifoldeb.

(x) Gwaredu a Diogelwch Tân Gwyllt – Mynegwyd pryder bod perchnogion cychod pleser yn gadael tan gwyllt tu allan i swyddfa'r Harbwr Feistr ac yn ystod yr wythnosau diwethaf talwyd £2,500 i'w gwaredu. Ystyrir cynllun i'w waredu mewn safle cyfreithiol er mwyn cydymffurfio â'r rheolau. Yn y cyfamser, er mwyn sicrhau diogelwch, cadarnhawyd mai'r drefn fydd i'r flachiadau gael eu dychwelyd i swyddfa'r Harbwr Feistr.

(DD) Trefniadau Staffio

Cynhelir cyfweiliadau ar gyfer swyddi Swyddog Cynorthwyol Harbwr ar y 20 Mawrth ac fe benodir staff tymhorol yn Nhywyn ym mis Mehefin.

(E) Rhaglen Waith Cynnal a Chadw

Derbyniwyd crynodeb gan yr Harbwr Feistr o'i raglen waith ar gyfer cynnal a chadw'r ddarpariaeth ar gyfer y Gwanwyn. Nodwyd y rhoddir sylw i:

- Angorfeydd
- Sustem storio cychod gweini ynghyd a chynnal cofrestr cyfredol
- Cynnal a chadw ysgolion

5. MATERION A GODWYD GAN AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL:

- (a) Mynegwyd bryder am gyflwr y concriid sydd yn cysylltu'r tarmac tu allan i Gorsaf y Bad Achub
- (b) Cyflwr y rheiliau ar y bont dros y llwybr rhufeinig
- (c) Bod arwyddion llwybrau arfordir wedi diflannu oddi ar y pyst-lampau

Mewn ymateb, sicrhaodd y Swyddog Morwrol y byddir yn ymdrin â'r uchod gan sicrhau fod yr Harbwr Feistr yn cwblhau asesiad cychwynnol ar y pontydd fel mater brys ac fe fyddir yn holi Swyddog Arfordir ynglyn â'r arwyddion llwybrau .

Mewn ymateb i ymholiad cyffredinol ynglyn a chwifio baneri, nododd y Swyddog Morwrol nad oes angen caniatad cynllunio i chwifio baneri Cenedlaethol.

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn ar 24 Medi 2013.

Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod.

CADEIRYDD